Gofal Cymdeithasol a Thai

Therapi Galwedigaethol

Hybu Byw yn Annibynnol…

…. allwn ni helpu?

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn print bras, Braille neu ar gasét ffoniwch: 01267-228925

Mae gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar gael ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk.

SCH13/07/05/b

Beth mae Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei gynnig?

Mae Therapyddion Galwedigaethol yn cynorthwyo pobl i wella eu gallu i wneud y pethau hynny sy'n bwysig iddynt er mwyn sicrhau gwell annibyniaeth. Gallant roi cyngor ynghylch yr offer sydd ar gael i helpu pobl ag anableddau neu wneud addasiadau i'ch cartref.

Mae'r Tîm Therapi Galwedigaethol yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Oedolion yn yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai. Gall y staff ymweld â chi gartref i roi cyngor i chi ynghylch cyflawni tasgau bob dydd.

(Hefyd mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn cyflogi Therapyddion Galwedigaethol. Os ydych yn yr ysbyty ac yn amau efallai bydd angen cymorth arnoch i fedru bod yn ddiogel ac ymdopi'n annibynnol gartref mynnwch air â'r Therapydd Galwedigaethol ar y ward neu mewn ysbyty dydd. Gallant asesu'ch anghenion cyn i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty neu gynnig cymorth i chi yn ystod y chwe wythnos gyntaf wedi i chi gael eich rhyddhau).

Pwy all ofyn am help?

Gallwn eich helpu os:

- ydych yn byw yn Sir Gaerfyrddin;
- oes gennych anabledd;
- ydych yn cael anawsterau yn eich bywyd bob dydd.

Sut mae gofyn am help?

Gellwch chi gysylltu â ni, neu gellwch ofyn i rywun megis perthynas, ffrind, neu'ch meddyg teulu gysylltu â'r Swyddog ar Ddyletswydd yn eich ardal ar eich rhan. Mae rhifau ffôn y Swyddogion ar Ddyletswydd fel a ganlyn:

- **Ardal Caerfyrddin** **01267 224421**
- **Ardal Dinefwr** **01558 825371**
- **Ardal Llanelli** **01554 779621**

Rhoi Manylion i'r Swyddog ar Ddyletswydd:

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am y pethau hynny yr ydych yn eu cael yn anodd neu'r tasgau hynny y mae angen help arnoch i'w cyflawni. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall eich sefyllfa a gosod eich cais ar y rhestr yn ôl y flaenoriaeth a roddir iddo.

Mae galw mawr am y gwasanaeth hwn. Rydym yn defnyddio rhestr aros felly efallai na fyddwn yn gallu cynnal asesiad ar unwaith. Bydd rhywun yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad.

Beth yw asesiad?

Bydd aelod o'r Tîm Therapi Galwedigaethol yn ymweld â chi gartref i ofyn sut yr ydych yn llwyddo i ddod i ben â gweithgareddau bob dydd.

Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys:

- Cyrraedd y toiled;
- Eistedd ar gadair neu godi oddi arni neu fynd i mewn ac allan o'r gwely;
- Hylendid personol;
- Mynd i fyny ac i lawr y grisiau;
- Mynd i mewn neu allan o'ch cartref;
- Cael eich symud neu eich helpu os na fedrwch gerdded neu sefyll.

Efallai byddwn yn gofyn i chi ddangos i ni sut yr ydych yn cyflawni tasgau penodol. Ar ôl gwneud asesiad byddwn yn trafod gyda chi yr opsiynau sydd ar gael i ddiwallu'ch anghenion, a pha gymorth neu gyngor y medrwn ni ei gynnig i chi. Byddwn wedyn yn rhoi'r wybodaeth hon i chi yn ysgrifenedig.

Yr hyn y medrwn ni ei gynnig ar ôl yr asesiad:

- Offer ar fenthyciad tymor hir yn rhad ac am ddim.
- Cyngor ynghylch offer y gellwch ei brynu.
- Dangos i chi neu'ch gofalwr (gallai'ch gofalwr fod yn berthynas, ffrind neu'n gymydog i chi er enghraifft) dechnegau newydd, neu ddulliau haws neu fwy diogel o ddod i ben â'ch gweithgareddau bob dydd.
- Rhoi cyngor i chi neu argymell sut y gellwch addasu'ch cartref er mwyn i chi fedru ymdopi.

(Efallai y codir tâl arnoch am rai addasiadau a bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod yr asesiad).

Gwasanaeth o safon uchel

Mae gennych hawl i ddisgwyl gwasanaeth o safon uchel gan staff Therapi Galwedigaethol sydd wedi'u hyfforddi'n gymwys.

Byddwn yn gwrando ar eich barn chi (ac ar farn eich gofalwr os yw'n briodol) yn ystod yr asesiad. Byddwn yn egluro ein hasesiad o'ch anghenion a'n cynigion i'ch helpu.

Mae gennych yr hawl i gael eich trin â pharch a chwrteisi bob amser gan staff Gofal Cymdeithasol a Thai Sir Gaerfyrddin.

Ni fyddwch yn cael eich trin yn llai teg oherwydd eich oed, hil, rhyw, rhywioldeb, crefydd nac anabledd.

Byddwn yn trin unrhyw wybodaeth bersonol yn gyfrinachol ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi:

- Rhaid i chi drin ein staff gyda pharch a chwrteisi, ni waeth beth fo'u hoed, hil, rhyw, rhywioldeb, crefydd nac anabledd.

- Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor os nad oes arnoch angen yr offer yr ydym ni wedi'i ddarparu mwyach neu os ydych yn gadael ardal Sir Gaerfyrddin.

Eich Barn a’ch Sylwadau chi am y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

Rydym am wneud yn siwr bod ein gwasanaethau o’r safon uchaf. Mae’ch sylwadau a’ch awgrymiadau’n bwysig iawn i ni felly. Cofiwch roi’ch sylwadau i ni am ein gwasanaeth.

Canmoliaeth

Os ydych yn fodlon ar y gwasanaeth yr ydych wedi’i dderbyn siaradwch â’r person sy’n delio â chi neu ei reolwr.

Y Drefn Gwyno

Os bydd pethau yn mynd o chwith dylech siarad â’r person sy’n rhoi’r gwasanaeth i chi neu ei reolwr.

Os ydych yn dal yn anhapus â’r gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn oddi wrth yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai, mae gennych yr hawl i wneud cwyn i’r:

Swyddog Cwynion Dynodedig
Yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin SA31 1LE

Rhif ffôn: 01267 228835
Rhif ffacs: 01267 221616

Ni fydd gwneud cwyn yn effeithio ar eich hawl i dderbyn gwasanaethau.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddfeydd isod:

Tîm Caerfyrddin
Maes Cambria
Caerfyrddin
SA31 1SE
Rhif ffôn: 01267 224421

Tîm Dinefwr
Adeiladau'r Cyngor
25 Heol Cilgant
Llandeilo
SA19 6HW
Rhif ffôn: 01558 825371

Tîm Llanelli
3 Rhodfa'r Goron
Llanelli
SA15 3UT
Rhif ffôn: 01554 779621

Argyfwng

Lle bynnag yr ydych yn y sir, mewn argyfwng yn y nos neu ar y penwythnos cysylltwch â Thîm Argyfwng Gofal Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin ar **01267 222288**.